# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together


10/07/2020

Annwyl Rieni a Gofalwyr ,

***Medi 2020***

Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn teimlo rhyddhad wedi clywed cyhoeddiad gan Kirsty Williams ddoe. Mae'r staff i gyd yn edrych ymlaen at weld y plant yn ôl yn yr ysgol. Mae wedi bod yn amser hynod od i bawb, ond mae gweld y plant yn ôl yn yr ysgol dros y pythefnos diwethaf wedi bod yn hyfryd. Mae wedi atgyfnerthu pa mor bwysig yw'r cyswllt wyneb yn wyneb a'r bond sydd gan staff yr ysgol â'u disgyblion.

Mae yna dipyn o waith i wneud ac rydym yn dal i aros am rai manylion o hyd ar sut y bydd yr ysgol yn edrych yn fis Medi. Er na fydd pellhau cymdeithasol yn ystyriaeth i 'grwpiau o blant', bydd rhai agweddau ar ddiogelwch yn parhau. Rydym dal i aros i glywed am drefniadau trafnidiaeth, clybiau gofal a chinio ysgol. Bydd mwy o wybodaeth a chanllawiau yn cael eu rhannu a'r ysgolion yn fuan.

Mi fydd canllawiau llywodraeth Cymru ar gael ddydd Llun 13/7/2020

Fodd bynnag, i'ch helpu chi gyda'ch cynlluniau fel teulu, rydyn yn barod wedi dechrau cynllunio ar gyfer y pythefnos cyntaf, gyda'r bwriad i adeiladu i gapasiti llawn i'r holl ddisgyblion erbyn 14 Medi. Bydd y cynllun ar gyfer y pythefnos cyntaf yn cael ei rhyddhau i chi ar ddydd Mawrth 14/7/2020. Eto. Rwy'n diolch i chi am eich amynedd.

***Gofal Brys i Blant Gweithwyr Allweddol***

Mae gofal brys i blant gweithwyr allweddol yn dod i ben yn yr ysgol ar 17fed o Orffennaf. Mae y sir yn ystyried darparu cefnogaeth yn ystod gwylie'r haf.

Bydd rhagor o wybodaeth ar gael i rieni/gofalwyr drwy gysylltu â gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd Abertawe ar 01792 517222 neu drwy anfon e-bost i fis@swansea.gov.uk.

Isod ceir dolen i arolwg lle mae'r ALl yn gobeithio mesur y galw am ofal plant i blant gweithwyr allweddol yn ystod gwyliau'r haf. Hoffem i chi rannu'r cyswllt â'r rhieni/gofalwyr sy'n weithwyr hanfodol yn unig. Bydd yr arolwg yn cau ymhen wythnos (11.45 pm dydd Mawrth Gorffennaf 14eg). Diolch am eich help.

***SUMMER CHILDCARE SURVEY (CRITICAL WORKERS)***

**Prydiau Bwyd am Ddim**

Mi fydd y teuluoedd hynny sy'n derbyn cefnogaeth ar gyfer prydiau bwyd am ddim yn parhau i dderbyn cefnogaeth dros wyliau'r haf.


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**

**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**

**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**

**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**

**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

**Teclynnau ar fenthyg**
Os ydych wedi benthyg chrome book gan yr Ysgol, a allwch sicrhau bod y teclyn yn cael ei ddychwelyd i'r Ysgol erbyn dydd Mercher 15/7/2020

**Ad-daliadau Llangrannog a Thanybwlch**
Mi fydd ad-daliadau ar gyfer y tripiau uchod yn dod yn ôl atoch ar ffurf siec. Bydd y rhain yn dod drwy'r post i chi erbyn yr wythnos nesaf.

**SQUID Rhieni Blwyddyn 6**
A wnewch chi sicrhau nad oedd unrhyw ddyledion yn eich cyfrif cinio. Mae unrhyw ddyled yn cael ei dynnu o gyllid yr Ysgol. Gall hyn gael effaith sylweddol ar gyllid yr Ysgol yn fyr dymor ac yn hir dymor.

**Llyfrau Gwaith Ysgol**
Yr wythnos nesaf, yn yr wythnos bontio, bydd cyfle i ddisgyblion ddod a'i llyfrau Ysgol ac unrhyw eitemau personol adref. Cofiwch ddod a chwdyn cryf neu fag Ysgol i gludo'r eitemau adref.

Edrychaf ymlaen at groesawi bob grŵp blwyddyn nol i'r Ysgol wythnos nesaf yn ein hwythnos bontio.

Yn gywir

E. Wakeham

Elin Wakeham

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**